

Erthygl 7 Y Cabinet

7.1 Rôl

Bydd y Cabinet yn cyflawni holl swyddogaethau'r awdurdod lleol nad yw'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, boed hynny yn ôl y gyfraith neu o dan y trefniadau gweithredol hyn. Bydd y Cabinet, wrth ymarfer y swyddogaethau hyn, yn gwneud hynny o fewn y Fframwaith Polisi a Chyllideb bennwyd gan y Cyngor yn unol â'r trefniadau hyn. Hefyd mae gan y Cabinet rôl allweddol o ran cynnig y Fframwaith Polisi a Chyllideb i'r Cyngor a gweithredu a monitro ei Bolisiau a'i Arferion ar gyfer Rheoli'r Drysorfa. Yn ogystal, bydd y Cabinet a'i aelodau yn arwain y broses Cynllunio Cymunedol; yr ymgyrch dros wella gwasanaethau'n barhaus drwy Raglen Cymru ar gyfer Gwella; arwain y gwaith o baratoi polisiau'r Cyngor a goruchwyllo'r gwaith o'u gweithredu wedi hynny; cymryd penderfyniadau o fewn y flwyddyn ar adnoddau a blaenoriaethau yn ddarostyngedig i Reolau Gweithdrefn y Fframwaith Polisi a Chyllideb; a bod yn ffocws ar gyfer ffurfio partneriaethau â chyrrff y sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol lleol eraill i fynd i'r afael ag anghenion lleol. Bydd y Cabinet hefyd yn ystyried ac yn ymateb i unrhyw argymhellion ac adroddiadau o'r Pwyllgorau Craffu, Pwyllgorau Rhanbarthol, Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau eraill, Paneli Ymgynghorol a'r Pwyllgor Safonau.

7.2 Rolau a Swyddogaethau'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd(ion) ac Aelodau'r Cabinet

Ceir Proffiliau swyddi a Manylebau Person yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd(ion) ac Aelodau'r Cabinet yng Nghynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig (Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad hwn).

7.3 Ffurf a Chyfansoddiad y Cabinet

Gelwir gweithrediaeth y Cyngor yn "Cabinetl", ac aelodau'r Cabinet fydd yr Arweinydd, a etholir i'r swydd honno gan y Cyngor, a hyd at deuddeg Cynghorydd arall a benodir gan yr Arweinydd (gan gynnwys hyd at ddau Ddirprwy Arweinydd). Dim ond Cynghorwyr y gellir eu penodi yn aelodau o'r Cabinet.

Hefyd mae gan yr Arweinydd y grym i benodi Arweinydd sy'n rhannu swydd ac Aelodau o'r Cabinet sy'n rhannu swydd, ar yr amod nad yw'r nifer fwyaf sydd ar y Cabinet yn fwy na thair ar ddeg (dod i rym ar 1 Mai 2022).

Gall yr Arweinydd benodi 'Cynorthwyr i'r Weithrediaeth' nad ydynt yn Aelodau o'r Cabinet ond mae hawl ganddynt i fynychu, ac i siarad yn, unrhyw gyfarfod o'r Cabinet neu unrhyw Bwyllgorau'r Cabinet (*dod i rym 1 Mai 2022*).

(Ni chaniateir aelodau cyfetholedig na dirprwyon nac aelodau yn lle Aelodau'r Cabinet. Ni cheir penodi Cadeirydd nac Is-gadeirydd y Cyngor yn aelod o'r Cabinet, ac ni all aelodau o'r Cabinet fod yn aelodau o Bwyllgor Craffu.)

Gellir penodi aelod i'r Cabinet dros dro yn lle Aelod o'r Cabinet sydd wedi ymarfer ei hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Bydd Arweinydd y Cyngor yn parhau yn ei swydd tan etholiad nesaf y Cyngor neu tan pa un bynnag o'r canlynol (a) - (d) ddaw gyntaf:

- (a) ei fod ef/ei bod hi yn ymddiswyddo; neu
- (b) ei fod ef/ei bod hi yn cael ei wahardd rhag bod yn Gynghorydd o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ef/hi ddychwelyd i'w swydd ar ddiwedd cyfnod y gwaharddiad); neu
- (c) nad yw ef/hi bellach yn Gynghorydd;
- (d) ei fod ef/ei bod hi'n cael ei symud o'i swydd drwy benderfyniad y Cyngor.

Bydd Cynghorwyr y Cabinet yn aros yn eu swyddi tan etholiad nesaf y Cyngor neu tan pa un bynnag o'r canlynol (a) - (c) ddaw gyntaf:

- (a) eu bod yn ymddiswyddo neu bod yr Arweinydd yn eu symud o'u swyddi;
- (b) eu bod yn cael eu gwahardd rhag bod yn gynghorwyr o dan ran iii o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gallant ddychwelyd i'w swyddi ar ddiwedd cyfnod y gwaharddiad); neu
- (c) nad ydynt bellach yn Gynghorwyr.

CYNHWYSWYD PORTFFOLIOS AELODAU O'R CABINET FEL RHAN O BROFFIL SWYDD YR ARWEINYDD YNG NGHYNLLUN LWFANSAU'R CYNGHORWYR A'R AELODAU CYFETHOLEDIG

7.4 Trafodion y Cabinet

Rhaid i drafodion y Cabinet ddigwydd yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn ar gyfer y Weithrediaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.

7.5 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau

Bydd awdurdod dirprwyedig gan bob aelod o'r Cabinet i gyflawni'r holl bwerau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor Sir ac sy'n ymwneud â'r portffolio sydd ganddynt, yn ddarostyngedig i:

- (a) gyflawni'r pwerau a ddirprwywyd i Swyddogion;
- (b) peidio ag ymarfer y swyddogaethau hynny mewn modd a fyddai'n:
 - (1) newid polisiau neu strategaethau a gymeradwywyd;
 - (2) creu polisiau neu strategaethau newydd;
 - (3) gwneud penderfyniadau ynghylch dod â gwasanaeth cyhoeddus i ben neu ei addasu;
 - (4) penderfynu ar bwerau neu ddyletswyddau newydd sylweddol yn sgil deddfwriaeth newydd;
- (c) y penderfyniadau hynny a wneir yng Nghyfarfodydd Penderfyniadau'r Aelod o'r Cabinet, a gynullir ac a gofnodir yn ffurfiol gan y Prif Weithredwr.

7.6 Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013

Cynnal "Gwrandawiadau Cais" llafar yn erbyn achosion lle mae Swyddogion wedi gwrthod ceisiadau.

7.7 Aelodau o'r Cabinet yn Gweithredu fel Ymddiriedolwyr

Gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag Ymddiriedolaethau mae'r Cyngor yn Ymddiriedolwr Corfforaethol arnynt.